Senedd Cymru
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE
RDF10
Ymateb gan: Prifysgol Abertawe

Welsh Parliament
Economy, Trade, and Rural Affairs Committee
Post-EU regional development funding

Evidence from: Swansea University

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Mae Prifysgol Abertawe: Ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Cyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE

## Pa mor effeithiol oedd Cronfeydd Strwythurol yr UE o ran trawsnewid economi Cymru?

Mae Prifysgol Abertawe yn sefydliad addysg uwch â phwyslais mawr ar ymchwil sydd wedi elwa'n sylweddol o gronfeydd strwythurol yr UE. O'n safbwynt ni, mae Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi cael effaith sylweddol ar economi Cymru.

Bydd dibynnu ar ffynonellau cyllid sy'n eang eu cwmpas, nad ydynt yn cydnabod yn benodol bwysigrwydd ymchwil, datblygu ac arloesi i gynaliadwyedd economaidd rhanbarthol a chenedlaethol, yn cael effaith yn ei sgîl ar berfformiad economaidd cyffredinol.

## Sut bydd y cyllid y mae Cymru'n ei gael drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a gweddill Cronfeydd Strwythurol yr UE yn cyfateb i lefel y cyllid a dderbyniodd Cymru drwy Gronfeydd Strwythurol tra roedd y DU yn aelod o'r UE ac unrhyw Gronfeydd Strwythurol posibl y gallai fod wedi'u derbyn drwy'r rhaglen Cronfeydd Strwythurol nesaf?

Fel Prifysgol, rydym wedi bod yn gweithio i symud i ffwrdd o'r ESIF at ffynonellau gwahanol o gyllid ymchwil ac arloesi, sy'n golygu bod yn rhaid i ni ail-ganolbwyntio ein hymdrechion ar ffynonellau cyllid hynod gystadleuol, gan gynnwys cyllid ymchwil Llywodraeth y DU megis yr UKRI, ac o'r trydydd sector a'r sector preifat. Rydym wedi ceisio cael dyraniad mwy o'r cyllid sydd ar gael gan y ffynonellau hyn, ac rydym wedi bod yn llwyddiannus wrth amrywio ein hincwm ymchwil drwy gynyddu lefel y cyllid gan yr UKRI rydym wedi'i gael yn ystod y blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, yn y tymor byr i ganolig ni ellir gwneud iawn yn llwyr drwy'r ffynonellau gwahanol hyn am raddfa sylweddol y gwahaniaeth mewn cyllid o ganlyniad i gyllid yr ESIF yn dod i ben.

Mae'n bwysig cydnabod bod natur y ffordd y mae'r cyllid yn dod i ben yn raddol hefyd yn risg i barhad prosiectau ymchwil sy'n agos at ddiwedd eu cyllid ESIF/ERDF ond nid ydynt eisoes wedi sicrhau cyllid ar gyfer y dyfodol gan ffynonellau eraill. Gellir cadw staff dawnus drwy bontio o'r ERDF i ddyfarniadau newydd yn unig. Rydym yn ymwybodol iawn o'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael a natur hynod gystadleuol tirwedd cyllid allanol yn y DU.

## Pa elfennau o'r ddwy gronfa sydd wedi gweithio'n dda hyd yma, a pha rai sydd wedi bod yn llai effeithiol? Pa wersi y gellid bod eu dysgu ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael yr effaith fwyaf bosibl?

Nid yw Prifysgol Abertawe wedi derbyn cyllid Codi'r Gwastad  oherwydd  i'r awdurdodau lleol yn ein rhanbarth gyfeirio'r cyllid hwnnw i brosiectau tra lleol. Rydym yn deall nad cymryd lle'r Cronfeydd Strwythurol a fyddai wedi ategu gwaith meithrin gallu ymchwil ac arloesi, ymchwil ddarganfod a sgiliau yw bwriad Cronfa Codi'r Gwastad. Yn y dyfodol, mae posibilrwydd y gallem gael mynediad at

Swyddfa'r Is-ganghellor • Vice-Chancellor's Office
Prifysgol Abertawe • Swansea University
Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP, Cymru, y DU · Singleton Park, Swansea, SA2 8PP, Wales, UK
E-bost/Email: vc@abertawe.ac.uk/ vc@swansea.ac.uk
Mae Prifysgol Abertawe yn elusen gofrestredig. Rhif. 1138342 ▪ Swansea University is a registered charity. Rhif 1138342

symiau cymharol fach o gyllid ar gyfer prosiectau sy'n cyd-fynd â'r mentrau wedi'u cefnogi gan Gronfa Codi'r Gwastad.

Mae'n ymddangos bod yr ymagwedd at y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar draws ein rhanbarth yn gweithio'n dda o ran awydd awdurdodau lleol i ymgysylltu â byd addysg uwch. Mae'r sector addysg uwch wedi'i integreiddio ag awdurdodau lleol drwy Gyd-bwyllgorau Gweithredol a fforymau Strategaeth Economaidd Rhanbarthol, sy'n galluogi cyfnewid gwybodaeth effeithiol. Felly, mae Prifysgol Abertawe mewn sefyllfa dda i ddeall blaenoriaethau awdurdodau lleol ar gyfer dyrannu Cronfeydd Ffyniant Gyffredin. Mae'r alwad am brosiectau ar agor ar hyn o bryd a byddwn yn cyflwyno nifer o gynigion ar sail lleoliad (yn hytrach nag ar sail ymchwil a datblygu). Bydd yn rhaid aros i weld beth gaiff ei ariannu, gan gydnabod bod y cyllid sydd ar gael yn sylweddol lai na'r hyn a oedd i'w gael o dan y Cronfeydd Strwythurol, ac nid yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn canolbwyntio ar ymchwil, arloesi, ymchwil a datblygu, nac ymchwil ddarganfod (ac felly nid yw'n cymryd lle'r EDRF).

O ran dysgu gwersi, bydd yn bwysig rheoli disgwyliadau cymunedau ymchwil addysg uwch, gan bwysleisio'r ffocws ar effaith ymchwil ar sail lleoliad, a phwysleisio pwysigrwydd cydweithio ac ymgysylltu â chynghorau a grwpiau rhanbarthol.

### I ba raddau y mae'r cronfeydd yn llwyddo i ganfod a chefnogi’r cymunedau ac ardaloedd yng Nghymru sydd â'r angen mwyaf? Sut mae lledaeniad daearyddol y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfa Codi'r Gwastad yn cymharu â Chronfeydd Strwythurol?

Dyrannwyd yr ESIF ar sail ranbarthol, ac fe'i cyflenwyd ar lefel strategol ledled Cymru, lle mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi'i dyrannu'n uniongyrchol i'r awdurdodau lleol sy'n cyfyngu ein gallu i dynnu at ei gilydd brosiectau rhanbarthol neu genedlaethol hirdymor ar raddfa fawr.

Bydd Prifysgol Abertawe'n gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn cyflwyno cais am y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac ar hyn o bryd rydym yn cymryd rhan yn y cylchoedd ceisiadau am y Gronfa Ffyniant Gyffredin a agorodd yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn wahanol i'r ESIF yn ei chwmpas a'i graddfa, oherwydd nad yw ymchwil ac arloesi'n rhan fawr ohoni ac nid yw’n amcan blaenoriaethol ac felly bydd yn gydran gweddol fach yn unig o unrhyw gais rhanbarthol neu leol.

Gan fod cyn lleied o bwyslais ar ymchwil ac arloesi yn y Gronfa Ffyniant Cyffredin, mae'n debygol y bydd unrhyw arian a geir yn cael llai o effaith nag y rhagwelid. Fel Prifysgol, rydym yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau ariannu rhanbarthol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'i ffocws ar Gymuned a Lleoliad, Ategu Busnesau Lleol a Phobl a Sgiliau. Rydym yn hynod ymwybodol o'r cyllid sydd ar gael i bartneriaid y tu allan i'r awdurdodau lleol, ar ôl cychwyn a sefydlu prosiectau angori. Er ein bod mewn sefyllfa dda i ymgynghori ar dri maes blaenoriaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac ychwanegu gwerth atynt, fel prifysgol rydym yn cydnabod bod dyraniad annigonol i ategu ein huchelgeisiau ymchwil, datblygu ac arloesi a'n huchelgeisiau rhyngwladol. Rydym yn cydnabod y bydd unrhyw gyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a ddyrennir i'n Prifysgol yn weddol fach ac felly bydd yn canolbwyntio'n fwy

Swyddfa'r Is-ganghellor • Vice-Chancellor’s Office
Prifysgol Abertawe • Swansea University
Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP, Cymru, y DU · Singleton Park, Swansea, SA2 8PP, Wales, UK
E-bost/Email: vc@abertawe.ac.uk/ vc@swansea.ac.uk
Mae Prifysgol Abertawe yn elusen gofrestredig. Rhif. 1138342 ▪ Swansea University is a registered charity. Rhif 1138342

ar brofi dichonoldeb/cysyniad yn hytrach na'r gwaith trawsnewidiol o feithrin gallu a ategwyd gan ffrydiau cyllid yr ESIF a oedd yn canolbwyntio ar ddarganfod, ar raddfa fawr.

Dyrannwyd yr ESIF yn uniongyrchol i Gymru ar sail angen cymdeithasol-economaidd ac roedd yn cynnwys cymorth penodol ar gyfer gweithgarwch ymchwil ac arloesi. Wrth symud ymlaen, darperir cyllid yn ei lle ar lefel y DU a Llywodraeth Cymru ond mae'r ffordd y mae rhaglenni newydd, megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin, wedi'u dylunio yn golygu nad yw ymchwil ac arloesi bellach yn rhan o amcanion craidd y rhaglenni cyllid hyn.

Mae hyn, ar y cyd â'r mecanwaith ariannu tra lleol drwy'r awdurdodau lleol, yn cynrychioli newid sylweddol a bydd yn cael effaith andwyol ar allu Cymru i ymgymryd â'r prosiectau ymchwil uchelgeisiol ar raddfa fawr ar lefel Cymru gyfan yn aml y gwnaeth yr ESIF eu hategu, ac a alluogodd ein sector ymchwil ac arloesi i ffynnu.

### Pa fathau o ymyraethau a gaiff eu darparu a'u dylunio drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac i ba raddau y mae'r rhain yn wahanol i ymyraethau Cronfeydd Strwythurol.

Ni ddarparwyd unrhyw ymyriadau drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin hyd yn hyn. O safbwynt addysg uwch, mae'r rhaglen yn annog cyflawni allbynnau lleol/rhanbarthol llawn effaith drwy weithredu ymchwil ar gyfer anghenion rhanbarthol. Mae'r rhaglenni y mae Prifysgol Abertawe wedi'u cynnig yn fentrau entrepreneuriaeth a sgiliau gweddol fach o ran eu graddfa, ar sail lleoliad â chenhadaeth ddinesig, ac felly nid ydynt yn ategu prosiectau ymchwil a datblygu. Efallai bu rhai o'r prosiectau hyn yn gymwys am gymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop o'r blaen (er ar raddfa fwy); nid yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ategu gwaith meithrin gallu ymchwil ac arloesi, fel y bu'r achos o ran cyllid yr ERDF.

### Pa mor ddefnyddiol yw'r prosesau a'r amserlenni a bennir gan Lywodraeth y DU ar gyfer y cyllid wrth gefnogi awdurdodau lleol a rhanbarthau i gyflawni eu canlyniadau arfaethedig?

Er ein bod yn cydnabod bod dyddiadau cau yn dynn a bod yn rhaid datblygu prosesau newydd yn gymharol fyr, mae sefydlu byrddau datblygu economaidd rhanbarthol wedi ategu'r gwaith o drosglwyddo gwybodaeth. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi mai dyma rownd gyntaf y Gronfa Ffyniant Gyffredin a bod pob parti yn addasu at brosesau newydd sy'n wahanol i'r dull wedi'i fabwysiadau gan yr UE o ran ei Gronfeydd Strwythurol. Rydym yn tybio y bydd rowndiau ariannu yn y dyfodol yn fwy strwythuredig ac effeithlon, gyda manylion yn cael eu rhannu mewn da bryd cyn y dyddiadau cau er mwyn galluogi a hyrwyddo cydweithio mewn rhanbarthau. Rydym hefyd yn nodi nad yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfa Codi'r Gwastad yn annog cydweithio ar draws y rhanbarth; ymddengys nad oes cymhellion i awdurdodau lleol ddod at ei gilydd i ddatblygu prosiectau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr ar draws ardal daearyddol fwy.

Swyddfa'r Is-ganghellor • Vice-Chancellor's Office
Prifysgol Abertawe • Swansea University
Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP, Cymru, y DU · Singleton Park, Swansea, SA2 8PP, Wales, UK
E-bost/Email: vc@abertawe.ac.uk/ vc@swansea.ac.uk
Mae Prifysgol Abertawe yn elusen gofrestredig. Rhif. 1138342 ▪ Swansea University is a registered charity. Rhif 1138342

## Pa mor effeithiol y mae'r gwahanol lefelau o lywodraethu yng Nghymru yn cydweithio mewn perthynas â'r cronfeydd hyn?

Byddem ni'n awgrymu y gallai'r gwahanol lefelau o lywodraethu yng Nghymru wella sut maent yn gweithio gyda'i gilydd mewn perthynas â darparu Cronfa Codi'r Gwastad a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Gwneir penderfyniadau ariannu gan awdurdodau lleol unigol a heb (er enghraifft) oruchwyliaeth Llywodraeth Cymru. Cyn hynny, bu gan Lywodraeth Cymru drosolwg strategol Cymru gyfan o ran dyrannu Cronfeydd Strwythurol, gan alluogi cyllid i gael ei dargedu'n strategol ac i ategu blaenoriaethau allweddol ehangach y genedl o ran yr economi, seilwaith, iechyd a sgiliau.

Collwyd y macro-farn hon a'r prosesau profedig ar gyfer dyrannu a monitro cyllid wrth ddatganoli penderfyniadau ariannu i awdurdodau lleol, sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion penodol, lleol. Y canlyniad yw bod arian yn tueddu i gael ei dargedu tuag at brosiectau lleol y nodir eu bod yn diwallu amcanion ac anghenion yr awdurdod lleol, sydd yn naturiol yn cael effaith gyfyngedig yn rhanbarthol ac yn genedlaethol wrth reswm.
I bob pwrpas mae llywodraethu wedi'i ddatganoli i awdurdodau lleol, gan arwain at brosiectau lleol nad ydynt yn hwyluso uwchraddio. Ein pryder yw y bydd y dull hwn yn lleihau effaith y cyllid sydd ar gael ac yn annog dull gweithio mewn seilos o ddatblygu rhanbarthol.

## Pa heriau a chyfleoedd y mae'r ffrydiau cyllido hyn yn eu cyflwyno ar gyfer cyrff a dderbyniodd Gronfeydd Strwythurol?

Nid yw Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn darparu cyllid newydd uniongyrchol, gan fod ganddi gylch gwaith ehangach nag ymchwil ac arloesi ac mae maint yr arian sydd ar gael i bob ymgeisydd wedi'i leihau'n sylweddol. Ar ben hynny, bydd y mecanwaith ariannu a chyflawni ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (drwy awdurdodau lleol, yn unol ag angen tra lleol) yn ei gwneud hi'n heriol i brifysgolion gael mynediad at y cyllid hwn. Roedd y Gronfa Adfywio Cymunedol yn gweithredu fel rhagflaenydd i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac yn canolbwyntio ar sgiliau, busnes, cyflogaeth a buddsoddiad mewn cymunedau.

## Sut mae'r rhaglen Lluosi yn datblygu ar draws gwahanol rannau o Gymru? Beth yw'r rhwystrau a'r cyfleoedd posibl mewn perthynas â chyflwyno'r rhaglen hon.

Lluosi yw'r rhaglen olaf i gael ei gweithredu gan yr awdurdodau lleol. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar sgiliau ôl-19, ac yn gyffredinol ar lefel is i'r hyn y mae Addysg Uwch yn tueddu i weithredu arni. Ceir cyfleoedd i'n Prifysgol gydweithio â darparwyr Addysg Bellach yn y rhanbarth ond, o ran rhaglen Lluosi, mae partneriaethau yn eu dyddiau cynnar ac mae cyfeiriad cyfranogiad Prifysgol Abertawe yn rhaglen Lluosi yn y dyfodol yn aneglur ar hyn o bryd (mae Prifysgol Abertawe eisoes yn darparu rhaglenni allgymorth a mathemateg mewn ysgolion, ac mae ganddi gyrhaeddiad cyfyngedig o ran darpariaeth ôl-19, nad yw'n rhan o'r Brifysgol).

Swyddfa'r Is-ganghellor • Vice-Chancellor's Office
Prifysgol Abertawe • Swansea University
Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP, Cymru, y DU · Singleton Park, Swansea, SA2 8PP, Wales, UK
E-bost/Email: vc@abertawe.ac.uk/ vc@swansea.ac.uk
Mae Prifysgol Abertawe yn elusen gofrestredig. Rhif. 1138342 ▪ Swansea University is a registered charity. Rhif 1138342